

## **HANES - YNYSOEDD PRYDAIN**

Amser - 90 munud

**Atebwch UN cwestiwn o Adran A ac UN cwestiwn o Adran B. Mae seren \* yn nodi cwestiwn ar Hanes Cymru.**

---

### **ADRAN A**

1. Sut y gall haneswyr wahaniaethu rhwng y ffeithiau am y gorffennol sydd o bwys, a'r rhai nad ydynt?
2. Gwaith pa hanesydd ydych chi wedi mwynhau ei ddarllen fwyaf, a pham?
3. A fydd twf y cyfryngau cymdeithasol yn amddifadu haneswyr y dyfodol o'u ffynonellau mwy traddodiadol neu a fyddant yn adnodd gwerthfawr iddynt?
4. Ar ba adeg y gellid dweud bod 'Ynysydd Prydain' wedi cael eu cyfuno'n wleidyddol?
5. A ddylid ystyried bod hanes Prydain yn rhan o hanes Ewrop?
6. 'I wlad sydd yn ôl pob sôn yn or-ymwybodol o'i gorffennol, mae gwleidyddiaeth Prydain yn dangos ychydig iawn o ddealltwriaeth o etifeddiaeth y gorffennol' (Helen Thompson, Mai 2017). Trafodwch.

### **ADRAN B**

#### **Y Cyfnod Cynnar a'r Oesoedd Canol**

7. Pam mai'r Brenin Alfred yw'r unig un o frenhinoedd Lloegr a gafodd ei alw'n 'Fawr'?
8. 'Roedd gan y gyfundrefn a sefydlwyd yn Lloegr gan William ... elfennau y byddem erbyn hyn yn eu hystyried yn drefedigaethol' (Yr Athro David Bates). Trafodwch yr asesiad hwn o deyrnasiad William y Conquerwr a choncwest Lloegr gan y Normaniaid, 1066-1087.

9. Aseswch arwyddocâd Magna Carta.
10. Beth fu'r effeithiau ar Gymru mai llywodraeth Eingl-Normanaidd oedd ei chymydog agosaf? Trafodwch hyn gan gyfeirio at y cyfnod cyn 1277.\*
11. Pam y llwyddodd Edward I i oresgyn Cymru?\*
12. I ba raddau y mae Edward III yn haeddu'r disgrifiad y 'brenin perffaith'?
13. Beth fu effaith y Rhyfel Can Mlynedd ar yr economi a'r gymdeithas?
14. Aseswch effaith Rhyfeloedd y Rhosynnau ar gymdeithas Lloegr ar ddiwedd y canoloesoedd.
15. Beth oedd achosion Gwrthryfel Glyndŵr yng Nghymru ar ddechrau'r bymthegfed ganrif? \*
16. Pa newidiadau cymdeithasol ac economaidd a welwyd yn Lloegr rhwng 1200 a 1500?
17. Disgrifiwch ac esbonio effeithiau'r pla du ym Mhrydain yn y canol oesoedd.

#### Y Cyfnod Modern Cynnar

18. A oedd y 'Deddfau Uno' yn angenrheidiol ar ôl i Harri'r VIII wahanu oddi wrth Eglwys Rufain? \*
19. A ddylid ystyried bod Elisabeth I yn un o noddwyr hael y Gymraeg?\*
20. 'Prin fu'r buddiannau a welodd haenau isaf cymdeithas o dan deyrnasiad y Tuduriaid'. Trafodwch.
21. I ba raddau y gwelwyd twf y bonedd yn yr unfed ganrif ar bymtheg?
22. 'Bu'r hyn a gyflawnodd yn fyrhoedlog ac, yn y tymor byr a'r tymor canolig, yn negyddol.' (John Morrill). Trafodwch y safbwynt hwn am Oliver Cromwell.
23. Aseswch gryfderau a gwendidau brenhiniaeth y Tuduriaid a/neu'r Stiwartiaid.
24. Pa ffynonellau sylfaenol y gellir eu defnyddio i ddeall byd cyfnod y Tuduriaid a/neu'r Stiwartiaid ym Mhrydain, a pha risgiau sydd ymhlyg yn hynny?
25. Aseswch effaith yr Ymoleuo ar Brydain yn ystod y ddeunawfed ganrif faith.
26. Beth oedd achosion y Chwyldro Diwydiannol?

#### Y Cyfnod Modern

27. 'I ddeall hanes y byd modern rhaid deall hanes ei gyfryngau torfol.' Ydych chi'n cytuno?
28. Pa mor eang oedd y cydymdeimlad ym Mhrydain i'r Chwyldro yn Ffrainc?

29. A welwyd gwelliant neu ddirywiad yn safon byw poblogaeth Prydain yn dilyn y Chwyldro Diwydiannol?
30. A yw pwysigrwydd Siartiaeth wedi'i orbwysleisio?
31. 'Elfen glodwiw o hanes Cymru.' Ydych chi'n cytuno â'r farn hon am derfysgoedd Beca yn ne-orllewin Cymru, 1839-44?\*
32. Yn eich barn chi beth yw nodwedd rymusaf imperialaeth Prydain yn y cyfnod 1870-1914 - goruchafiaeth economaidd, gweithgaredd cenhadol neu rym milwrol?
33. A oedd y Rhyfel Byd Cyntaf yn drobwynt yn hanes Cymru fodern?\*
34. I ba raddau y gellid dweud bod ffeministiaeth Brydeinig cyn 1897 yn fudiad?
35. Pam y pasiwyd deddfau ar gyfer diwygiadau cymdeithasol gan lywodraethau'r Blaid Ryddfrydol yn y cyfnod Edwardaidd?
36. Pam mai'r Blaid Ryddfrydol a oedd yn tra-arglwyddiaethu ar wleidyddiaeth Cymru rhwng 1868 a 1922?\*
37. 'Ni welwyd llong yn ymddryllio dan law capten a chriw mwy anwybodus o'r rhesymau am ei helynt na mor analluog i wneud unrhyw beth ynglŷn â'r sefyllfa' (E. J. Hobsbawm). A yw hyn yn asesiad teg o berfformiad llywodraethau Prydain yn y dirwasgiad economaidd rhwng y ddau ryfel?
38. Pam y bu effeithiau'r dirwasgiad rhwng y rhyfeloedd yn waeth yn ne Cymru nac yn rhannau eraill o Brydain?\*
39. A wnaeth Chamberlain y peth iawn wrth gymodi â Hitler yn yr 1930au?
40. Pam y cafodd y dirwasgiad rhwng y rhyfeloedd yn yr ugeinfed ganrif effaith mor ddinistriol ar Gymru?\*
41. Aseswch effaith NAILL A'R Rhyfel Byd Cyntaf NEU'R Ail Ryfel Byd ar sefyllfa menywod ym Mhrydain.
42. Pam yr enillodd y Blaid Lafur etholiad cyffredinol 1945?
43. A fu chwyldro cymdeithasol ym Mhrydain yn y 1960au?
44. Mae digwyddiadau coffa canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf wedi symleiddio a gwyrddroi hanes y digwyddiad hwnnw trwy ganolbwyntio'n unig ar y profiad yn y ffosydd.' Ydych chi'n cytuno?